

**CAIS AM BRYDAU YSGOL AM DDIM A
GRANT DATBLYGU DISGYBLION 2019/2020**

Rhaid cwblhau'r ffurflen hon er mwyn sicrhau hawl i Brydau Ysgol Am Ddim o fis Medi 2019.



A – Manylion Rhiant / Gofalwr – RHAID cwblhau POB maes

Cyfenw Rhiant / Gofalwr..... **Enw cyntaf**..... Teitl.....
 Cyfeiriad..... Cod Post.....
 Rhif Ffôn..... Cyfeiriad e-bost (dewisol)

Dyddiad Geni Rhiant / Gofalwr.....
 Rhif Yswiriant Gwladol Rhiant / Gofalwr..... neu rif NASS.....

B – Rhowch Fanylion pob plentyn sy'n mynychu ysgol yng NGHASNEWYDD yn llawn-amser

Enw llawn	Dyddiad Geni	Perthynas â'r Ymgeisydd	Enw'r Ysgol y bydd y plentyn yn ei mynychu o fis Medi 2019

C – Ar Gyfer Talu'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn unig – Disgyblion sy'n dechrau yn y Dosbarth Derbyn neu Flwyddyn 7 yn unig

Er mwyn i ni roi taliad i chi o ran y Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer **disgyblion sy'n dechrau yn y Dosbarth Derbyn neu Flwyddyn 7**, bydd rhaid i chi roi eich manylion banc. **Does dim modd i ni wneud taliadau i mewn i gyfrif Swyddfa'r Post ar hyn o bryd.** Os nad oes cyfrif banc gyda chi, gallwch chi ddefnyddio cyfrif aelod o'r teulu neu ffrind gyda'i ganiatâd wedi'i nodi isod.

Enw'r Banc/Gymdeithas Adeiladu	Rhif Cyfrif Banc/Cymdeithas Adeiladu
<input type="text"/>	<input type="text"/>
Enw(au) Deiliaid y Cyfrif(on)	Cod Didoli Banc
<input type="text"/>	<input type="text"/>

Rwy'n awdurdodi Cyngor Dinas Casnewydd i wneud yr holl daliadau i mi drwy system BACS

Llofnod Deiliad y Cyfrif:..... Dyddiad:.....

DATGANIAD

Rwy'n tystio bod y wybodaeth ar y ffurflen hon yn gywir. **Byddaf yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Lleol ar unwaith os bydd fy amgylchiadau'n newid.** Rwyf hefyd yn cydsynio i unrhyw ymchwiliadau gael eu gwneud mewn perthynas â'r wybodaeth a roddir. Rwy'n cytuno i ad-dalu i'r Awdurdod Lleol, ar gais, unrhyw daliad dyledus am brydau ysgol nad oedd hawl ei gael am ba bynnag reswm.

Rwy'n cytuno i chi ddefnyddio'r wybodaeth rwyf wedi'i rhoi i brosesu fy nghais am Brydau Ysgol am Ddim a byddaf yn cysylltu â'r asiantaethau perthnasol fel sydd wedi'i ganiatáu gan y gyfraith i ddilysu fy hawl gychwynnol a **pharhaus**.

Rwy'n deall y gallai canlyniadau unrhyw Wiriad o Hawl i Brydau Ysgol Am Ddim gael eu defnyddio i asesu fy hawl i gael y Grant Datblygu Disgybl ar gyfer unrhyw ddisgybl sy'n dechrau yn y Dosbarth Derbyn neu Flwyddyn 7.

Llofnod:..... Dyddiad:.....

Ewch i roi'r ffurflen hon yn ôl i: Tîm Budd-dal Tai, Yr Orsaf Wybodaeth, Adeilad yr Orsaf, Queensway, Casnewydd, De Cymru, NP20 4AW neu anfonwch y ffurflen i Gyngor Dinas Casnewydd, Blwch SP 60, Casnewydd, NP20 4XN

Cais Prydau Ysgol Am Ddim a Grant Datblygu Disgybl ar gyfer Ysgolion Casnewydd 2019/20 Gwybodaeth Bwysig i Rieni / Ofalwyr

Adnewyddu

Os oes gan eich plant hawl i Brydau Ysgol am Ddim ac maen nhw'n mynd i Ysgol yng Nghasnewydd, gallwn ni wirio'ch hawl barhaus heb gael ffurflen newydd gennyh chi, oni fyddwn ni'n cysylltu â chi mewn amlen ar wahân. Os yw unrhyw un o'ch plant yn mynd i ysgol y tu allan i Gasnewydd, gweler manylion yn y nodiadau isod.

Ceisiadau Newydd

Rhaid cwblhau ffurflen gais newydd i bob plentyn nad yw wedi bod mewn ysgol yng Nghasnewydd o'r blaen. **RHAID** i chi gwblhau pob adran ar y ffurflen gais a llofnodi'r datganiad. Bydd peidio â llenwi ffurflenni yn peri oed cyn unrhyw daliad Prydau Ysgol Am Ddim neu Grant Amddifadedd Disgyblion, gan y bydd rhaid i ni gysylltu â chi i ofyn am y wybodaeth sy'n eisiau.

Y meini prawf cymhwysedd – Bydd disgyblion yn gymwys os bydd rhieni/gofalwyr yn cael un o'r budd-daliadau canlynol:

- Cymorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith Seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Gysylltiedig ag Incwm
- Credyd Treth Plant (rhaid i incwm blynyddol yr aelwyd fod yn is na £16,190)
NODER: os ydych chi'n derbyn Credydau Treth Gwaith, NI fyddwch chi'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim.
- Yr Eifen Warantedig o Gredyd Pensiwn y Wlad
- Budd-dal Cymorth ceiswyr lloches cenedlaethol
- Credyd Cynhwysol hyd at 31 Mawrth 2019
- O 1 Ebrill 2019, Credyd Cynhwysol, ar yr amod bod gan yr aelwyd incwm blynyddol net o ddim mwy na £7400 (fel y'i hasesir gan enillion o hyd at dri o'r cyfnodau asesu diweddaraf).

Nodiadau

Gallwn ni wirio'ch cymhwysedd; does dim rhaid rhoi tystiolaeth o gymhwysedd oni ofynnir amdani

Nodir ein bod ni'n prosesu ceisiadau Ysgolion CASNEWYDD yn unig. Os yw un o'ch plant yn mynd i ysgol mewn awdurdod cyfagos, bydd rhaid i chi gysylltu â'r awdurdod hwnnw i wneud cais am Brydau Ysgol am Ddim. Dyma rifau cyswllt yr awdurdodau cyfagos:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	-	01495 235262
Cyngor Sir Fynwy	-	01633 644508
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	-	01633 647715/19

Grant Datblygu Disgyblion

Os yw disgyblion yn cael Prydau Ysgol am Ddim, mae ganddyn nhw hawl hefyd i Grant Datblygu Disgybl os ydyn nhw'n mynd i Ddosbarth Derbyn neu Flwyddyn 7 ym mis Medi 2019. Rhowch eich manylion Banc yn Adran C i'w gwneud hi'n bosibl i wneud y taliad. Yn anffodus, does dim modd i ni wneud taliadau i mewn i gyfrif Swyddfa'r Post ar hyn o bryd. **Gellir ond prosesu ceisiadau am y Grant Datblygu Disgybl i ddisgyblion sy'n byw yng Nghasnewydd. Os ydych chi'n byw'r tu allan i Gasnewydd, gwnewch gais i'r awdurdod lle rydych chi'n byw.**

NODWCH Y CANLYNOL:

- Chi sy'n gyfrifol am roi gwybod i'r Tim Budd-dal Tai am unrhyw **newidiadau i'ch amgylchiadau ariannol/teuluol**. O fethu â rhoi gwybod i'r Tim Budd-dal Tai, gallai fod yn rhaid i chi dalu cost lawn unrhyw brydau ysgol y mae eich plant yn eu cael o'r dyddiad y mae eich amgylchiadau'n newid.
- Os bydd eich plant yn symud i ysgol arall yng Nghasnewydd yn ystod y flwyddyn ysgol, cysylltwch â'r Tim Budd-dal Tai fel y gallwn ni gysylltu â'r ysgol newydd i roi gwybod bod gan y plentyn hawl i brydau ysgol am ddim.
- Ni allwch chi wneud cais ar gyfer plentyn sy'n mynd i'r feithrinfa'n rhan amser.